

LLOYD, RICHARD (1595 - 1659), diwinydd (yn perthyn i blaid y brenin Siarl I) ac ysgol-feistr

Enw: Richard Lloyd
Dyddiad geni: 1595
Dyddiad marw: 1659
Plentyн: William Lloyd
Rhiant: Catrin ferch Rhisiart Owen
Rhiant: Dafydd Llwyd
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: diwinydd (yn perthyn i blaid y brenin Siarl I) ac ysgol-feistr
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig
Awdur: Arthur Herbert Dodd

Pumed mab ydoedd i **Dafydd Llwyd** o'r Henblas, Llangristiolus, bardd ac ysgrifennwr cynnar ar fydryddiaeth Gymraeg, ac yn disgyn ar yr ochr wrywol o **Llywarch ap Bran** ac ar yr ochr fenywol o **Fleddyf ap Cynfyn** - dywedir i'r tad gael ei addysg yn Rhydychen; merch **Richard Owen Theodor** o Benymnydd (sir y Môn yn 1565 a 1573) ac yn perthyn o bell i'r teulu brenhinol, oedd mam Richard. Ymaelododd yng Ngholeg Oriel, Rhydychen, 3 Ebrill 1612, ac fe'i cyflwynwyd i reithoraeth Sonning a ficeriaeth Tilehurst (Berkshire); cymerodd ei B.D. yn 1628 (7 Mai). Pan oedd y Senedd Faith yn enwi aelodau o'r 'Assembly of Divines' a fwriedid, enwyd Lloyd dros sir Ddinbych (25 Ebrill 1642), eithr ni chynhwyswyd ei enw yn y rhestr derfynol. Collodd ei fywiolaethau pan dorrodd y Rhfel Cartrefol allan, bu yng ngharchar amryw weithiau, ac ymneilltuodd i Rydychen, lle y bu'n addysgu mewn ysgol breifat ac yn ysgrifennu gramadeg Lladin a llyfrau ysgol eraill (gweler y teitlau yn Wood, *Athenae Oxonienses*, iii, 473); pan fu farw ym Mehefin 1659 fe'i claddwyd yn eglwys S. Peter le Bailey. Bu dau o'i frodyr yn dal bywiolaethau yn sir Fôn a bu trydydd brawd yn ysgrifennyd iarl Northumberland. Mab iddo oedd **William Lloyd** (1627 - 1717), esgob Llanelwy.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

- Oxford Dictionary of National Biography*, a'r ffynonellau a enwir yno
J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 122
The Journals of the House of Commons, ii, 541
T. Richards, *A History of the Puritan Movement in Wales* (1920), 6, 15
Archaeologia Cambrensis, III, xv, 389-90

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [56497313](#)

Wikidata: [Q18672119](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Dodd, A. H., (1953). LLOYD, RICHARD (1595 - 1659), diwinydd (yn perthyn i blaid y brenin Siarl I) ac ysgol-feistr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 20 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLOY-RIC-1595>

Copio i'r

clipwedd

Preifatrwydd a Chwics
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Welsh Government

Llyfrgell Cymru

Sponsored by

Welsh Government